4.112

# Ĉan Briodasol i Arglwydd Ninian Edward Stuart a'r Anrhydeddus Ismay Preston.

## Bridal Song to Lord Ninian Edward Stuart and the Hon. Ismay Preston, Gormanston Castle, Co. Meath, Ireland.

*Mehefin, 16eg, 1906.*

*June 16th, 1906. Composed by Mr. J. DUNCAN, Treherbert.*

*Ton—"Ar Dywysog Gwlad y Bryniau"*

Mae'r bryniau yn adseinio
Gan fiwsig gwlad y gân,
Caerdydd sydd yn cyflwyno
Mawlgerdd i'w Harglwydd glân ;
Mae deiliaid ein prif ddinas
Yn codi ar eu tra'd,
Er dathlu'r lon briodas,
Yn deilwng o'r Hen Wlad.

Cydgan—

Pob llwydd i'n Harglwydd Ninian,
A'i hoff gymhares wiw,
Boed iddynt fywyd llawen,
Trwy 'u hoes dan wenau Duw.

Mae Gweithiwr Bute, Treherbert,
Yn gorfoleddu 'n awr,
Gan ddisgwyl trwy'r briodas,
Gael gweled toriad gwawr ;
Maent holl am ei goroni
Yn y briodas hon,
Eu Harglwydd wnant ei garu
A'i briod hoff a llon.

Cydgan—Pob llwydd, &c

Hen Gymru wen a'r Alban,
A'r Ynys Werdd a ddaw
Trwy'r foneddiges wiwlan,
Cyn hir i ysgwyd llaw ;
Llawenydd i'r briodas,
Hir oes a llwyddiant mawr,
Ac euraidd oll mewn urddas,
A disglaer fel y wawr.

Cydgan—Pob llwydd, &c.

Boed heulwen y briodas
Yn llanw'u hoes i gyd,
A blodau eu cymdeithas
Yn sawru'n bêr o hyd ;
A gwenau'r nef oleuo
Eu camrau îs y nen,
A'u hwyneb yn disgleirio,
Dan haul y nefoedd wen.

Cydgan—Pob llwydd, &c.

*Tune—"God Bless the Prince of Wales"*

The hills are now resounding
Throughout the land of song,
Our city's celebrating
The wedding all along :
The hosts of Cardiff city
Are praising with accord,
The joyous bridal party—
Their Lady and their Lord.

Chorus—

All hail to our Lord Ninian,
And his warm-hearted bride,
May blessings flow upon them,
And God be on their side.

Bute Workmen of Treherbert
Rejoice, both day and night,
Expecting through this wedding
To welcome gleams of light ;
Our hearts and hands, most gladly,
With garlands would adorn,
Both Lord and Lady Stuart,
Upon this festal morn.

Chorus—All hail, &c.

O ! may this glorious wedding
Be pure and ever green,
Without a shadow dark'ning
But all through life, serene,
The star of day dispelling
Unwelcome gloom of night,
And both in peace enjoying,
The rays of perfect light.

Chorus—All hail, &c.

Let Scotia and let Erin,
And Wales with song rejoice,
In honour of the wedding
With happy heart and voice,
May sunshine rest upon them,
While on this earth they roam,
And wear the glorious emblem
Peace, in their Castle home.

Chorus—All hail, &c.

D. WATKIN JONES, GWALIA PRESS, TREHERBERT.

X20521 3544

Don. 1127. 1.9.1911.

7168